# PARCH

YMDDYGIAD AR GYFER DYSGU / CYFLAWNI POTENSIAL

## Rhesymau pam:

- Data Class Charts (2025/26): Mae'r arfarniad yn amlygu bod ymddygiad ychydig iawn o ddysgwyr yn parhau i arwain at amser dysgu a gollwyd.
- Mae tystiolaeth arfarnu yn dangos bod y gyfradd o waharddiadau allanol yn bryder ar gyfer ychydig iawn o ddysgwyr, gan effeithio ar eu parhad mewn addysg.
- Nododd y broses arfarnu nad yw dysgwyr mewn lleiafrif o wersi yn ymrwymo'n llawn nac yn gymhellol i'w dysgu.
- Mae'r arfarniad yn amlygu'r angen parhaus i ddarparu Dysgu Proffesiynol i'r holl staff ar arferion sydd wedi'u lywio gan drawma a strategaethau dad-ddwysáu.
- Nodwyd o'r broses arfarnu bod angen datblygu ymyraethau mwy pwrpasol ac ymchwilio i arfer dda i gryfhau strategaethau cefnogi 'ymddygiad er mwyn dysgu'.

## Sut ydym am gyflawni hyn?

- Datblygu a mireinio'r Polisi Parch a Pherthynas gyda'r holl randdeiliaid, gan amlygu effaith uniongyrchol ymddygiad cadarnhaol ar gynnydd dysgwyr.
- Arddel a modelu gweithdrefnau'r polisi yn drylwyr, gan sicrhau cofnodi cyson a chynhwysfawr ar Class Charts a Provision Map.
- Cynyddu capasiti'r staff a'r tîm bugeiliol drwy ddarparu Dysgu Proffesiynol parhaus ar strategaethau wedi'u llywio gan drawma i gefnogi ymddygiad heriol.
- Olrhain a monitro data yn strategol ar lefel unigol, grŵp a charfan er mwyn galluogi'r tîm bugeiliol i ddosbarthu ymyraethau amserol a phwrpasol.
- Arfarnu effaith y prosesau newydd yn gyson i sicrhau safonau ymddygiad rhagorol a meithrin diwylliant o barch pob amser.

## Effaith ddymunol :

- Bron pob rhanddeiliad yng nghymuned yr ysgol yn dangos parch cyson at ei gilydd ac at eu hunain.
- Pob aelod o gymuned yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb gweithredol am gefnogi a meithrin perthnasoedd cadarnhaol.
- Dim ond lleiafrif bach iawn o ddysgwyr sy'n cael eu cyfeirio allan o wersi o ganlyniad i ymddygiad sy'n tarfu ar y dysgu.
- Y mwyafrif o ddysgwyr yn dangos gwelliant mesuradwy yn eu hymddygiad drwy gefnogaeth y tîm bugeiliol.
- Lleihau cyfraddau gwaharddiadau allanol fel mai dim ond ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cael eu effeithio.
- Y mwyafrif o ddysgwyr a nodwyd gyda phryderon ymddygiadol y flwyddyn flaenorol yn dangos cynnydd amlwg ac yn arddangos ymddygiad cadarnhaol yn dilyn ymyraethau tracio.

2

# PRESENOLDEB

GWELLA CYFRADDAU PRESENOLDEB A FFOCWS AR LES DYSGWYR

## Rhesymau pam:

- Roedd presenoldeb ar gyfer 2025 - 2025 yn 91.9% o gymharu a chyfartaledd o 89% ar draws ysgolion uwchradd Conwy ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Roedd presenoldeb yn 91.9% yn 2025 - 2026 i fyny 1.4% o gymharu â 90.5% yn 2024 - 2025.
- Mae presenoldeb dysgwyr ADY 3.2% yn is na dysgwyr nad ydynt gyda ADY (91.9% - 88.7%).
- Mae presenoldeb dysgwyr PYDd yn sylweddol is (10.4%) na dysgwyr nad ydynt yn cael PYDd (91.9% - 81.5%). Fodd bynnag, mae presenoldeb dysgwyr ADY a PYDh yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghonwy ac yn genedlaethol.
- Mae prydlondeb i'r ysgol ac i wersi yn parhau i fod yn bryder i ychydig o ddysgwyr sy'n tarfu ar ddysgu.
- Mae hyn wedi achosi cynnydd mewn amser dysgu a gollwyd. (data Class Charts 25/26).

## Sut ydym am gyflawni hyn?

- Mabwysiadu Polisi Presenoldeb Newydd: Rhoi o'r newydd ffocws a phwysigrwydd ar bresenoldeb gyda'r holl randdeiliaid, gan danlinellu'r effaith uniongyrchol y mae colli amser dysgu yn ei chael ar gynnydd a lles dysgwyr.
- Ymuno â'r cynllun Inclusive Attendance er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd personol am hyrwyddo a chefnogi presenoldeb da.
- Rhoi ymyrraethau targedol ar waith i leihau'r bwlch presenoldeb rhwng dysgwyr sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim (PYDd) a'r rhai nad ydynt yn derbyn PYDd.
- Olrhain a dadansoddi data presenoldeb yn barhaus ar sail unigolyn, grŵp a charfan gyfan, gan alluogi'r tîm presenoldeb a bugeiliol i ddarparu ymyrraethau amserol.

## Effaith ddymunol :

- Anelu at darged presenoldeb cyffredinol o 94% (sy'n gynnydd o 2.1% ar y ffigwr presennol).
- Cynyddu cyfradd presenoldeb dysgwyr PYDd o 81.5% i 88.5% (cynnydd o 7 bwynt canran), gan leihau nifer y dysgwyr sy'n syrthio i'r categori Absenoldeb Cyson (presenoldeb o dan 90%) o leiaf 25%.
- Gostwng cyfradd absenoldeb Dydd Gwener o 9.56% i lai na 6%, gan ddileu'r bwlch rhwng presenoldeb cychwyn/canol y wythnos a dydd Gwener.
- Cyflawni gwelliant mesuradwy o leiaf 5% mewn presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer o leiaf 85% o'r dysgwyr a draciir ar sail wythnosol drwy ymyrraethau bugeiliol.
- Gostwng achosion o hwyrni ar Class Charts i lai na 2% o gyfanswm y dysgwyr, gan sicrhau bod o leiaf 95% o ddysgwyr yn cyrraedd ysgol a gwersi mewn pryd bob diwrnod.
- Sicrhau bod dysgwyr yn derbyn pwyntiau neu wobrau presenoldeb/prydlondeb cadarnhaol ar Class Charts am ddangos cynnydd cadarnhaol yn eu presenoldeb yn ystod cyfnod penodol.

YSGOL DYFFRYN CONWY

# PEDAGOGAETH

3

ADDYSGU A DYSGU / CWRICWLWM O'R RADD FLAENAF

## Rhesymau pam:

- Yr ydym yn awyddus i ymateb i nodau Cenhadaeth Genedlaethol Cymru (2023) a Cwricwlwm i Gymru wrth ddatblygu dysgwyr llythrennog, rhifog a chymwys yn ddigidol sy'n barod am ddysgu am oes.
- Mae arfarnu yn nodi bod angen:
- Parhau i ymgorffori cyfleoedd dysgu dwfn drwy dasgau cyfoethog sy'n rhoi ffocws amlwg ar gynnydd bob dysgwr.
- Ymateb i dystiolaeth arfarnu sy'n nodi bod angen mwy o gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr ar draws y cwricwlwm.
- Mynd i'r afael â chanfyddiadau arfarnu sy'n nodi angen i adborth mewn lleiafrif o lyfrau ganolbwyntio'n fwy nodweddiadol ar gynnydd mewn dysgu.
- Cydymffurfio â chanfyddiadau arfarnu sy'n amlygu'r angen i amlygu effeithiolrwydd dysgu dysgwyr a datblygu eu gallu i ddysgu'n annibynnol.

## Sut ydym am gyflawni hyn?

- Cyfarwyddo a grymuso Staff: Sicrhau bod pob ymarferwr yn deall eu rolau wrth hyrwyddo cynnydd medrau, gyda dysgu proffesiynol yn meithrin eu pedagogaeth.
- Addysgu: Ffocws ar gyflymder addas i wersi, cynnal diddordeb dysgwyr a sicrhau bod tasgau yn rhai gynyddol heriol ac addas i anghenion pob dysgwr.
- Adborth ar gyfer Cynnydd: Canolbwyntio ar ansawdd yr adborth ar dasgau cyfoethog a thasgau 'bocs melyn' i roi'r cyfle gorau i ddysgwyr wneud cynnydd.
- Asesu cynnydd: Diwygio prosesau asesu cynnydd ac agweddau at ddysgu i sicrhau cysondeb ar draws pob blwyddyn a phwnc.
- Arfarnu sy'n Ffocysu ar Effaith: Shiftio monitro mewnol o adolygu prosesau reng-flaen i arfarnu effaith addysgu ac adborth ar gynnydd dysgwyr.

## Effaith ddymunol :

- Y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cadarnhau drwy brosesau Llais Dysgwyr fod eu profiadau dysgu yn arloesol, yn greadigol ac yn eu cymell i lwyddo.
- Y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson a medrus yn eu medrau Llythrennedd, Rhifedd a Chymwysedd Ddigidol yn ôl data olrhain yr ysgol.
- Bron pob gweithgaredd monitro (samplu gwaith ac arsylwi) yn dangos bod tasgau cyfoethog yn cynnig lefelau her priodol sy'n galluogi pob dysgwr (gan gynnwys y rhai Mwy Galluog a Thalentog) i gyrraedd eu potensial.
- Y mwyafrif o lyfrau sy'n cael eu samplu yn dangos bod dysgwyr yn ymateb yn gyson ac yn effeithiol i adborth 'bocs melyn' er mwyn wella eu gwaith a meithrin eu hannibyniaeth.
- Y mwyafrif o ddysgwyr a draciwyd (gan gynnwys dysgwyr di freintiedig, ADY a PYDd) sy'n derbyn ymyrraeth yn dangos cynnydd mesuradwy mewn cyflawniad a gwelliant amlwg yn eu dyhead at ddysgu.

# TÎM YDC

4

GRYMUSO ARWEINWYR RHAGOROL AR BOB LEFEL

## Rhesymau pam:

- Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu (2019): Modelu, rhannu a meithrin arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws yr ysgol, gan gynnwys meithrin gallu arweinyddiaeth ymhlith dysgwyr.
- Darparu Dysgu Proffesiynol Strategol: Ymateb i ganfyddiadau arfarnu drwy ddarparu hyfforddiant pwrpasol i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar arferion ysgogol, cynllunio gwelliant a defnydd effeithiol o Ddeallusrwydd Artiffisial (DA).
- Lles Staffl: Galluogi arweinwyr canol a staff i chwarae rhan fwy cysylltiedig a strategol yng nghylch gwerthuso'r ysgol, gan gefnogi eu lles a'u helpu i reoli llwyth gwaith yn effeithiol.
- Atebolrwydd ac Arweiniad: Sicrhau bod uwch arweinwyr yn dal arweinwyr canol yn fwy atebol wrth iddynt werthuso safonau, darpariaeth a chynnydd yn eu meysydd/adrannau.
- Perchnogaeth a Ffocws ar Effaith: Grymuso arweinwyr canol a staff dysgu i berchnogi eu cyfarfodydd a'u prosesau gwerthuso, gan sicrhau bod pob trafodaeth yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith ar ddysgu a chynnydd dysgwyr.

## Sut ydym am gyflawni hyn?

- Ymgorffori'r egwyddor o 'sefydliad sy'n dysgu' drwy feithrin diwylliant cymell i gryfhau ansawdd y dysgu, yr addysgu a'r arweinyddiaeth.
- Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan strategol mewn arfarnu, gan weithredu ac adolygu blaenoriaethau gwelliant yn brydlon.
- Egluro disgwyliadau strategol arweinwyr canol a darparu Dysgu Proffesiynol pwrpasol i feithrin arweinyddiaeth ysbrydoledig.
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad ar ddefnydd effeithiol o Ddeallusrwydd Artiffisial (DA) i arweinwyr ar bob lefel.
- Partneru â'r ALl Conwy, CYDAG a rhwydweithiau Dysgu Proffesiynol i gryfhau gweithdrefnau arfarnu a datblygu gallu arweinyddiaeth.

## Effaith ddymunol :

- Bron pob arweinydd yn cymhwyso strategaethau cymell a chefnogi effeithiol sy'n arwain yn uniongyrchol at gynnydd parhaus dysgwyr.
- Pob arweinydd yn teimlo eu bod wedi'u harfogi â strategaethau arwain cryf i werthuso a datblygu eu meysydd cyfrifoldeb yn hylwydd.
- Bron pob arweinydd wrth galon prosesau sicrhau ansawdd, gan arwain yn effeithiol ar arfarnu, adnabod blaenoriaethau a gweithredu camau gweithredu clir.
- Y rhan fwyaf o arweinwyr yn gweithredu gyda hyder uchel ac yn cael effaith sylweddol ar godi safonau dysgu, addysgu a deilliannau dysgwyr.
- Pob arweinydd yn defnyddio prosesau Adolygiad Dysgu Proffesiynol (ADP) yn effeithiol i ysgogi gwelliant parhaus tra'n rheoli a chynnal eu lles personol.